# Newyddion Gweithredu

25c

Rhif 1

Gaeaf 1992


## Mae'r Oll yn Gysygredig

Daeth mwy na chant o bobl ynghyd mewn gwasanaeth crefyddol ganol mis Hydref ar safle Capel y Babell, a fu'n gwasanaethu'r cymunedau a arferai fyw ar y tiroedd sydd bellach ym meddiant y fyddin, ar lethrau Mynydd Epynt, ger Pontsenni.

Sefydlwyd lleiniau saethu Epynt ym 1940, pan gipiwyd 65,000 erw o dir amaethyddol gan y fyddin, gan symud cannoedd o bobl o'u cartrefi.

Er gwaethaf addewidion y caent ddychwelyd ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, mae'r fyddin wedi parhau i feddiannu eu tir ac mae wrthi ar hyn o bryd yn moderneiddio ac ehangu'r lleiniau saethu.

Roedd y gwasanaeth, a drefnwyd gan Gymdeithas y Cymod, yn cwestiynu pan y gwaherddir pawb o'r ardal hardd hon o hyd – ac, yn enwedig, cyn-drigolion yr ardal a'u disgynyddion.




## Y Gynhadledd – yng Nghymru

Cynhelir Cynhadledd CND 1992 yng Nghaerdydd – a bydd hefyd yn dathlu dengmlwyddiant Cymru Ddi-Niwclaer.

Bydd y Gynhadledd yn gyfle i weithredwyr dros heddwch o bob rhan o Gymru, yr Alban, Iwerddon a Lloegr i benderfynu ar ddigwyddiadau ymgyrchu yn y dyfodol a gosod yr agenda ar gyfer gwaith CND dros y flwyddyn nesaf. Fe'i cynhelir dros benwythnos 27-29 Tachwedd 1992 yn Athrofa Addysg Uwch Caerdydd yng Nghyncoed.

Mae CND Cymru yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau yn ystod penwythnos y Gynhadledd, gan gynnwys cyfarfod cyhoeddus ar y nos Wener a noson gymdeithasol ar y nos Sadwrn.

Bydd nifer o siaradwyr yn annerch y Gynhadledd, gan gynnwys AS Plaid Cymru/Y Blaid Werdd, Cynog Dafis, Maria Elena Hurtado o Fudiad Datblygu'r Byd, a Bill Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol.

Rhan allweddol o'r penwythnos fydd y gyfres o weithdai a fydd yn cynnig llwyfan i drafod a chyfnewid syniadau, a chyfle i gwrdd â chynrychiolwyr eraill a gweithio gyda hwy.

Yn ogystal â hyn oll, cynhelir etholiadau ar gyfer Cadeirydd, Trysorydd, ac Is-Gadeiryddion CND am y flwyddyn nesaf, a thrafodir polisiau CND.

Bydd CND Ieuenctid a CND Myfyrwyr yn cynnal eu Cynhadledd hwythau yng Nghyncoed ar yr un pryd, ac anogir pobl ifanc yn enwedig i gymryd rhan ym mhrif fusnes y Gynhadledd.

Croeso i holl aelodau CND i fynychu'r Gynhadledd, a gwahoddir grwpiau CND a chyrff sydd wedi ymgysylltu â'r mudiad i ddanfon cynrychiolwyr.

Am fwy o wybododaeth ar Gynhadledd 1992, ffoniwch Nicola Butler, Trefnydd y Gynhadledd yn Swyddfa CND yn Llundain ar 071-700 4524.

Bydd CND Cymru yn trefnu llety yng nghylch Caerdydd ar gyfer cynrychiolwyr y Gynhadledd. Os gellwch helpu drwy gynnig lle i aros, cysylltwch â Mary Jones, os gwelwch yn dda, ar 0792 774687.

*Peidiwch â methu'r cyfle – mae'r gynhadledd hon yn rheidrwydd i bob ymgyrchydd CND.*

# Pigion y Gynhadledd

## Bruce yn Bresennol

Bydd Cynhadledd 1992 yn cychwyn gyda chyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu gan CND Cymru yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Bydd Bruce Kent a Marjorie Thompson yn egluro pam ei bod hi'n hanfodol i CND ddal i bwyso ar y rhyfelgwn niwclear – a sut y gellwch chi chwarae eich rhan.

Croeso i bawb i'r cyfarfod, yn gynrychiolwyr ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 7.30 pm nos Wener 27ain Tachwedd.

## Parti Heddwch

Dewch i ddigwyddiad cymdeithasol mwyaf bywiog y ddinas nos Sadwrn.

Bydd Sian Donovan a Chôr Cochion Caerdydd yn diddanu yn Noson Gymdeithasol CND Cymru yng Nghanolfan Channel View, Grangetown.

Bydd y bar yn agor am 7 pm a ddim yn cau tan yn hwyr.

Mae'r tocynnau'n £3 i'r cyflogedig a £2 i'r digyflog a byddant ar gael yn y Gynhadledd neu o flaen llaw o'r Siop Heddwch neu gan Mary Jones (0972 774687).

## Siglo'r Sefydliad

Bydd Sefydliad Arfau Atomig Caerdydd yn Llanisien yn ganolbwynt i wrthdystio yn ystod penwythnos y Gynhadledd.

Bwriedir cynnal gwylnos y Gynhadledd y tu allan i'r SAA (5.30-6.30 nos Sadwrn, mae'n debyg – ffoniwch Nicola Butler ar 071-700 4524 i gadarnhau) a bydd rhai cynrychiolwyr yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau eraill yn y ffatri! *Gofynnir i unrhyw ymwelwyr â'r Gynhadledd sy'n bwriadu gweithredu yn y SAA ac sydd ag angen cefnogaeth leol i gysylltu â Peter Burt (0222 483340), os gwelwch yn dda.*

## Croeso!

**Croeso i rifyn cyntaf Newyddion Gweithredu Heddwch – cylchgrawn ymgyrch newydd CND Cymru.**

**Ein nod yw hysbysu aelodau CND Cymru – a phawb sy'n ymddiddori mewn gweithio dros heddwch a diarfogi – o ddigwyddiadau, gweithredu, a newyddion yn ymwneud ag ymgyrchu gwrth-niwclear yng Nghymru.**

**Cyhoeddir Newyddion Gweithredu Heddwch bedair gwaith y flwyddyn fel cydymaith i gylchgrawn CND Cymru, Heddwch.**

**Bydd Heddwch yn para i ymddangos ddwywaith y flwyddyn gydag erthyglau manwl a thrafodaeth ar y materion ehangach sydd yn wynebu'r mudiad heddwch.**

**Eich papur CHI yw Newyddion Gweithredu Heddwch, a bydd angen eich cymorth chi arnom i gynhyrchu cylchgrawn diddorol a llawn gwybodaeth.**

**Rhowch wybod i ni, da chi, am unrhyw ddigwyddiadau ymgyrchu sydd ar y gweill – ac adrodd yn ôl wrthym arnynt, er mwyn i ni fedru dweud wrth weddill Cymru am eich llwyddiant!**

**Croeso i bob cyfraniad – danfonwch at Peter Burt, 110 Heol Connaught, Y Rhath, Caerdydd CF2 3PY.**

## Cynhadledd Ieuenctid CND 1992

Mae nifer o nodweddion newydd ynghylch Cynhadledd Ieuenctid CND eleni, a bydd yn fwy ac yn well nag erioed! Bydd hon yn gynhadledd ar y cyd i ieuenctid a myfyrwyr, yn cwmpasu anghenion pawb rhwng 13 a 24 oed.

Am y tro cyntaf, bydd yn cyd-redeg â Chynhadledd Flynyddol CND, felly, o'r diwedd, bydd cyfle i aelodau ieuenctid CND leisio barn ar yr ymgyrchoedd a gynhelir yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn ogystal â hyn – a'r peth gorau oll – cynhelir y gynhadledd eleni yng Nghymru, yn Athrofa Addysg Uwch Caerdydd, Cyncoed, o nos Wener 27ain Tachwedd i ddydd Sul 29ain Tachwedd.

Am dâl cofrestru o ddim ond £6, gellwch fwynhau penwythnos cyfan o drafodaeth ysgogol a gweithdai a fydd, er eu bod yn canolbwyntio ar faterion niwclear, yn cyffwrdd hefyd ar lawer agwedd ar wleidyddiaeth werdd.

Mae hyn oll, yn ogystal â noson gymdeithasol anhygoel, yn golygu y bydd hon yn y gynhadledd na ddylech ei methu!

■ *Am fanylion pellach, cysyllter â John Handelaar (071-607 3616) neu Joe Castle (0446 738020) rhwng 5 a 7 pm).*

# Cadwch Traws ar Gau!



Gorymdeithiodd mwy na thri chant o bobl drwy Gaernarfon ym mis Hydref i fynegi eu pryder ynglŷn ag ail-gychwyn gorsaf ynni niwclear Trawsfynydd.

Caewyd yr orsaf ym mis Chwefror 1991 wedi darganfod bod y llestri pwysedd dur sy'n cynnwys adweithyddion niwclear yr atomfa yn breuo yn llawer cyflymach na'r disgwyl.

Mae'r dur brau yn dueddol o hollti, a phe datblygai hollt, gallai damwain ar raddfa Chernobyl ddigwydd yn yr orsaf.

Mae gweithredwyr yr orsaf, Nuclear Electric, wedi hawlio y bydd y dur yn llai brai pan redir yr adweithyddion, yn ôl y bwriad, ar dymheredd gweithredu uchel.

Fodd bynnag, pan gychywynir adweithydd, bydd y dur oer yn dal yn frau, a dyna pryd mae'r mwyaf o berygl y ceir hollt yn y llestr pwysedd.

Clywodd rali Caernarfon ddatganiad gan George Stroud, bachgen ysgol 12-oed lleol, yn annog Nuclear Electric i gadw adweithyddion Trawsfynydd ar gau.

Dywedodd George wrth y dorf bod ynni niwclear wedi bwrw cwmwl tywyll dros ogledd Cymru a gwnaeth apel angerddol am i bobl wrando ar lais ei genhedlaeth ef ac ymateb.

Daeth cynrychiolwyr o grwpiau ymgyrchu yn Lloegr i'r rali hefyd, o Bradwell a Sizewell yn East Anglia, ac o Dungeness yn Swydd Gaint, grwpiau sydd yn gwrthwynebu'r diwydiant niwclear yn eu cymunedau eu hunain.

■ *Mae'r ymgyrch yn erbyn Trawsfynydd yn parhau. Am wybodaeth bellach, cysyllter â CWNC, Blwch Post 1, Llandrindod, Powys LD1 5AA.*

# Trais Trident

Gwrthdystiodd ymgyrchwyr heddwch ar dir a môr pan hwyliodd y llong danfor Trident HMS Vanguard am y tro cyntaf.

Bu gwrthdystiadau'n bla ar fordaith y llong danfor, yn Barrow, lle adeiladwyd y llong, ac yng Nghanolfan Llongau Tanfor Faslane, lle cynhelir y profion môr.

Bydd profion môr Vanguard yn digwydd o gwmpas ynysoedd Gorllewinol yr Alban yn ystod y misoedd nesaf.

Profion ar y wyneb, profion is law'r wyneb, profion diogelwch, a phrofion plymio dwfn fydd y rhain.

Wedi eu cwblhau, bydd y llong danfor yn dychwelyd i Barrow yn gynnar ym 1993 lle gwneir unrhyw adnewidiadau angenrheidiol.

Mae ymgyrchwyr heddwch wedi ymrwymo i barhau i wrthdystio cyhyd ag y bydd Vanguard yn Faslane.

Protestiodd miloedd yn erbyn Trident mewn gwrthdystiadau ledled yr Alban, Cymru, a Lloegr cyn i Vanguard hwylio.

Teithiodd ymgyrchwyr o Gymru i'r Alban i ymuno yng ngwrthdystiad 'Rhybudd Trident' CND yn Glasgow.

Yng Nghymru, cynhaliwyd gwylnosau golau-cannwyll yn ystod cynhadledd flynyddol Plaid Cymru yn y Rhyl a thu allan i Sefydliad Arfau Atomig Caerdydd lle gwneir rhannau ar gyfer ergydion niwclear Trident.

# Gwahardd Profion

Ym mis Hydref 1991, cyhoeddodd yr Arlywydd Gorbachev y byddai'n atal profion arfau niwclear am flwyddyn, gan annog pwerau niwclear eraill y byd i weithredu yn yr un modd.

Cadarnhawyd y moratoriwm hwn yn ddiweddarach gan yr Arlywydd Yeltsin.

Ym mis Ebrill 1992, synnodd Ffrainc bawb drwy gyhoeddi moratoriwm ar ei phrofion niwclear hithau am weddill y flwyddyn, gyda'r posibilrwydd o ymestyn hynny pe rhoddai pwerau niwclaer eraill y gorau i brofion hefyd.

Ym mis Hydref eleni, daeth moratoriwm i rym yn UDA, ac ataliwyd pob prawf (yn cynnwys rhai Prydeinig a gynhelir ar diroedd yn perthyn i bobl y Shoshone Gorllewinol yn Nevada) tan fis Gorffennaf 1993.


Ar ôl Gorffennaf 1993 mae'r UD am gynnal pum prawf y flwyddyn tan 1996; wedi hynny, byddant yn rhoi'r gorau i brofion am byth. Gan ymateb i hyn, mae gwledydd y cyn-Undeb Sofietaidd newydd gyhoeddi estyniad i'w moratoriwm hwy – hyd oni ddaw moratoriwm America i ben.

Y nod nesaf i'r mudiad heddwch yw cael Ffrainc i ymestyn ei moratoriwm hithau yn yr un modd â'r uchod. Os pery pethau i ddigwydd mor gyflym ag yn yr wythnosau diwethaf, mae'n bosibl y bydd hyn wedi digwydd erbyn i chi ddarllen hyn!

Ein nod bwysicach yn y tymor hir yw darbwyllo Ffrainc, UDA, a'r gwledydd cyn-Sofietaidd i drosi eu moratoria unigol ar brofion niwclear yn Gytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC) amlochrog a fydd yn rhwymo'r gwledydd i ufuddhau iddo.

Gadawyd Prydain ar yr ymylon yn llwyr gan y datblygiadau hyn, oherwydd ni fedr brofi arfau niwclear heb gydweithrediad yr UD a phwerau niwclear eraill. Mae bron yn sicr y bydd Tseina'n ufuddhau i gytundeb gwahardd profion cyn gynted ag y bydd y gwledydd eraill wedi ei arwyddo.

Mae Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr wedi bod yn destun negydu ers blynyddoedd lawer. Cytunwyd ar y rhan fwyaf o'r manylion a – fel arfer – y cwbl sydd ei angen yw'r ewyllys wleidyddol i roi sêl bendith i'r cytundeb.



# Gair yn ei Bryd

## Ymgyrch Lythyru CND Cymru

Ysgrifennu llythyron yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o weithredu dros heddwch – a gallwn wneud hynny o gysur ein cartrefi ein hunain!

Bob rhifyn, byddwn yn gofyn




i chi sgwennu un (neu ddau) lythyr byr yn seiliedig ar un o'r erthyglau yn Newyddion Gweithredu Heddwch.

Ddylai hynny ddim cymryd yn hwy i chi na gwylio'r newyddion – ond drwy gymryd rhan a sgwennu, byddwch yn helpu i greu'r newyddion.

Y tro hwn, yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr erthygl ar brofion niwclear, sgwennwch lythyr cwrtais, os gwelwch yn dda, at:

*Y Llysgennad,*
*Llysgenhadaeth Ffrainc,*
*58 Knightsbridge*
*Llundain SW1*
*Lloegr*

gan ofyn i Ffrainc ymestyn ei moratoriwm ei hun ar brofion arfau niwclear (os nad yw hynny wedi digwydd eisoes) ac am ymrwymiad i weithio tuag at gyfuno pob moratoriwm cenedlaethol annibynnol mewn un Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr amlochrog erbyn 1996.




## Dŵr nid Arfau

Helpwch CND Cymru i gefnogi prosiect dŵr War on Want yn Sahrawi.

Mae ein hymgyrch yn erbyn y fasnach arfau yn parhau gyda thaflen ar y cyd gan War on Want/CND Cymru a gyhoeddir ym mis Rhagfyr.

Yn y cyfnod rhwng nawr a'r Nadolig, pan fydd pobl wrthi'n llenwi eu cypyrddau yn barod am Firi'r ŵyl, mae'n bwysig cofio bod diffyg dŵr yfed glân, diogel mewn cymaint o rannau eraill o'r byd.

Mae pobl yn marw oherwydd nad yw'r angen sylfaenol hwn yn cael ei ddiwallu – ond ni fyddai raid i hynny ddigwydd, pe dewisiai'r gwledydd datblygedig cyfoethog wario llai ar arfau a mwy ar les.

Defnyddiwch y daflen hon ym mha fodd bynnag y medrwch, da chi, i gyfleu'r neges hon a helpu i godi arian i brosiect dŵr War on Want.

## Newyddion Gweithredu Heddwch

■ *Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos fel atodiad i Heddwch ym mis Chwefror/Mawrth 1993.*

■ *Croeso i bob cyfraniad.*

■ *Danfonwch naill ai at Peter Burt, 110 Heol Connaught, Y Rhath, Caerdydd CF2 3PY neu Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW. Y dyddiad cau ar gyfer copi yw 25ain Ionawr 1993.*

# Digwyddiadau

## TACHWEDD

**Sadwrn 21ain:** Ffair Ryngwladol CCU, Y Deml Heddwch, Caerdydd. *Manylion pellach: 0222 228549.*

**Gwener 27ain – Sul 29ain:** Cynhadledd CND a Chynhadledd Ieuenctid CND, Athrofa Addysg Uwch Caerdydd, Cyncoed, Caerdydd. Siaradwyr, trafodaeth, gweithdai, a chymdeithasu. *Cysyllter â: Mary Jones, 0792 774687.*

**Gwener 27ain:** 7.30 pm. Cyfarfod Cyhoeddus Noswyl y Gynhadledd gyda Bruce Kent a Marjorie Thompson. Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

**Sadwrn 28ain**, 7.00 pm tan yn hwyr. Noson Gymdeithasol CND Cymru gyda bar a chabaret. Canolfan Channel View, Grangetown, Caerdydd. Tocynnau £3 cyflogedig, £2 digyflog. Ar gael o'r Siop Heddwch neu yng *Nghynhadledd CND neu gan Mary Jones, 0792 774687.*

## RHAGFYR

**Iau 3ydd:** Noson Nadoligaidd CND Penybont ar Ogwr. Y Llew Gwyn, Cefn Cribwr, ger Penybont. *Manylion: 0446 774452.*

**Sadwrn 5ed:** 11.00 am – 1.00 pm. Canu Carolau Nadolig CND Aberystwyth. Stryd Fawr, Aberystwyth. *Cysyllter â: Medi James, 0970 832725.*

**Sadwrn 12fed:** Cyfarfod Cyngor CND Cymru, Rhaeadr, Powys. Croeso i bawb. *Cysyllter â Mary Jones, 0792 774687.*

**Mawrth 15fed:** 6.00 pm ymlaen. Canu Carolau Nadolig CND Talybont. Sgwâr Talybont. *Cysyllter â: Medi James, 0970 832725.*

**Mercher 16eg:** 8.00 pm Ceilidh Nadolig ar y cyd rhwng CND Abertawe a Chyfeillion y Ddaear, gyda 'Rough Edge'. Neuadd Eglwys Sant Gabriel, Heol Bryn, Abertawe. Tocynnau £1.50 cyflogedig, £1 digyflog. *Manylion: 0792 830330.*

**Gwener 18fed:** 7.00 – 8.00 am. Gwylnos heddwch Nadolig CND wrth SAA Caerdydd. Croeso i bawb. Dewch â chanhwyllau, baneri a chardiau Nadolig i'w rhoi i weithwyr y ffatri. *Cysyllter ag: Alison Jackson, 0222 756422.*

## IONAWR 1993

**Llun 18fed:** 7.30 pm. Cyfarfod i gynllunio'r rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch. Croeso i bawb. Siop Heddwch, Caerdydd. *Cysyllter â: Peter Burt, 0222 483340.*

**Llun 25ain:** Dyddiad olaf ar gyfer erthyglau i'w cynnwys yn rhifyn nesaf Newyddion Gweithredu Heddwch.

## CHWEFROR 1993


**Sul 14ed:** Digwyddiad Dydd Gŵyl Ffolant yn SAA Caerdydd. *Manylion pellach gan Peter Burt, 0222 483340.*

# Hwyl yr ŵyl

Mae'r tri cherdyn Nadolig CND newydd hyn, wedi eu hargraffu ar gerdyn eilgylch yn dwyn y neges "Cyfarchion y Tymor" yn ddwyieithog, ar gael mewn pecynnau o chwech (dau yr un o'r tri dyluniad), yn cynnwys amlenni, am ddim ond £1.40 y pecyn (yn cynnwys cludiant).

Er peidio â chael eich siomi, archebwch yn fuan gan Jan Henderson, Masnachu CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe, SA8 3AN.

Mae rhestr lawn o gynnyrch CND Cymru ar gael o'r un cyfeiriad ond gofyn amdani.







# Cysylltiadau

## CYSYLLTIADAU ARDAL

■ **Gogledd Cymru:**
**Ann Hall**, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW. Teleffon: 0766 831356.

■ **Canolbarth a Gorllewin:**
**Rod Stallard**, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Teleffon: 05505 260.
**Medi James**, Llannerch, Talybont, Dyfed SY24 5HJ. Teleffon: 0970 832725.
**Ian Campbell**, Glangors, Ynys Las, Borth, Dyfed SY24 5JU. Teleffon: 0970 871360.

■ **De Cymru:**
**Brian Jones**, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. Teleffon: 0792 830330.

## CYSYLLTIADAU YMGYRCH

■ **Trident a Moroedd Di-niwclear:**
**Peter Burt**, 110 Heol Connaught, Y Rhath, Caerdydd CF2 3PY. Teleffon: 0222 483340.

■ **Profion Niwclear, Lledaeniad Niwclear, ac Ynni Niwclear:**
**Brian Jones**, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. Teleffon: 0792 830330.

■ **Diarfogi a Datblygu, Trawsnewid Amddiffyn, ac Ymgyrchu yn erbyn y Fasnach Arfau:**
**Mary Jones**, d/o Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ. Teleffon: 0222 489260.

■ **Dadfilwreiddio Cymru:**
**Rod Stallard**, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Teleffon: 05505 260.

■ **Hedfan Isel:**
**Gillian Metcalf**, Tŷ Yfory, Heol Llanfair, Llanbedr Pont Steffan SA48 8JZ. Teleffon: 0570 45576.

■ **Ieuenctid CND:**
**Joe Castle**, 25 Cilgant Aberystwyth, Y Barri CF6 8EH. Teleffon: 0446 738020.

# Brys am Bres

Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn gyllideb flynyddol o £24 biliwn i wario ar gynllunio a phropaganda o blaid rhyfel.
Mae gan CND Cymru gyllideb flynyddol o ddim ond £10,000.
Mae arnom angen arian ar frys i dalu am ymgyrchoedd a helpu i oleuo'r ffordd tuag at fyd di-niwclear.

Bydd unrhyw bres y gellwch ei sbario – ni waeth pa mor ychydig – yn helpu gwaith CND Cymru.
Peidiwch ag oedi, da chi – cwblhewch y ffurflen gyferbyn a'i dychwelyd at CND Cymru gyda chyfraniad neu, yn well byth, archeb banc.
Diolch o galon.

**FFURFLEN ARCHEB BANC**

**At y rheolydd**
**(Enw eich banc)**

**Cyfeiriad**

**Côd sortio'r banc** **Rhif cyfrif**

**Teir i CND Cymru y swm o £** **bob mis,**
**gan gychwyn ar / /19**

**Arwyddwyd** **Dyddiad / /19**

**At ddefnydd y y swyddfa: at y Banc Cydweithredol CCC, Bwlch Post 75, Yr Ais, Caerdydd CF1 1SW. Talwch yr Archeb Banc hon i gyfrif cyflog CND Cymru, os gwelwch yn dda, rhif y cyfrif**

**FFURFLEN NODDI**

**Dyma fy nghyfraniad o: £100, £50, £30, £10, £5, £ (swm).**
**Amgaeaf siec/archeb bost yn daladwy i CND Cymru, neu debydwch fy ngherdyn Access/Visa am £ (swm)**

**Rhif cerdyn** **Dyddiad y daw i ben**

**Llofnod** **Dyddiad**

**Enw**

**Cyfeiriad**

**Danfoner y ffurflen hon at CND Cymru, Bryn Elltyd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW**